Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Meddygfa Cathays, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 02 Rhagfyr 2024
Dyddiad cyhoeddi: 04 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-392-3

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


**1. Yr hyn a wnaethom** ........ 5

**2. Crynodeb o'r arolygiad** ........ 6

**3. Yr hyn a nodwyd gennym** ........ 10

- **Ansawdd Profiad y Claf** ........ 10
- **Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol** ........ 14
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** ........ 21

**4. Y camau nesaf** ........ 26

**Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad** ........ 27

**Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith** ........ 28

**Atodiad C -** Cynllun gwella ........ 29

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Cathays, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 02 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn ‘dda’ neu'n ‘dda iawn’. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u gofalwyr mewn modd cwrtais a chadarnhaol.

Roedd prosesau ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol. Mae'n cadw rhestrau o gleifion y mae'n eu ffonio er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd mynediad da i'r safle a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd y practis hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu a'r Groes Goch i gefnogi ei gymuned amrywiol gydag anghenion iaith penodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad da i gleifion
- Roedd yn sicrhau bod y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Mynediad i wasanaethau cyfieithu i gefnogi cleifion gyda gofynion iaith penodol.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Dangosodd ein canfyddiadau dîm clinigol ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd prosesau da ar waith ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal a wnaeth helpu i hwyluso camau gweithredu prydlon gan y practis.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys diweddaru polisïau a gweithdrefnau allweddol gyda gwybodaeth benodol i'r practis a gwelliannau i amgylchedd yr ystafell nyrsio; diweddaru'r sinciau, y tapiau a'r teils.

Roedd gwiriadau tymheredd dyddiol yn cael eu cymryd ar gyfer meddyginiaethau y mae angen eu cadw yn yr oergell. Gwelsom fod un oergell yn llawn, a allai rwystro'r llif aer i gynnal tymheredd priodol, felly rhaid ceisio cyngor i sicrhau bod stoc yn cael ei storio'n gywir.

Mae angen diweddaru'r amserlenni glanhau i gynnwys glanhau'r ardaloedd wedi'u carpedu o fewn cyrraedd y cleifion â stêm yn rheolaidd a sicrhau bod y llenni preifatrwydd yn cael eu gwirio/newid yn rheolaidd yn dibynnu ar eu dyddiad neu olwg.

Roedd y gweithdrefnau diogelu oedd ar waith yn foddhaol gyda pholisi ar waith ac arweinwyr diogelu a enwir yn y practis. Nodwyd nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn.

Roedd nodiadau meddygol y cleifion o ansawdd da ar y cyfan ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth glir a phriodol.

Roedd ymatebion y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth y practis hwn ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r holl staff gael hyfforddiant diogelu cyfredol sy'n briodol i'w rôl
- Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses wythnosol ar gyfer gwirio cyffuriau a chyfarpar brys yn digwydd a'i bod yn cael ei chofnodi.
- Rhaid gofyn am ganllawiau gan wneuthurwr yr oergell i sicrhau bod y stoc sy'n cael ei storio yn briodol a'i fod yn sicrhau llif aer oer.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac roedd y staff yn gallu dod o hyd i'r rhain mewn sefyllfa o argyfwng.
- Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio
- Roedd cofnodion cleifion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac

roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd gan y practis gyfres o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ac roedd prosesau ar waith i rannu unrhyw ddiweddariadau gwybodaeth â staff. Roedd angen diweddaru rhai polisïau i adlewyrchu canllawiau Cymru a'u gwneud nhw'n benodol i'r practis.

Er bod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol, nododd y practis nad oedd unrhyw nyrsys parhaol ar adeg ein hymweliad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod nyrsys asiantaeth rheolaidd ar gael i ddarparu gwasanaethau a chlinigau'r practis, ac roedd proses recriwtio'n mynd rhagddi i sicrhau y caiff swyddi nyrsio eu llenwi.

Roedd rhai aelodau o'r staff yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau ar hyfforddiant gorfodol. fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion a dadebru. Dywedwyd wrthym fod cyrsiau hyfforddiant yn cael eu trefnu ac rydym yn argymell bod y rhain yn cael eu trefnu'n ddi-oed, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl
- Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau er mwyn i'r wybodaeth fod yn benodol i'r practis
- Recriwtio staff nyrsio yn llwyddiannus er mwyn ychwanegu at wasanaethau'r practis a chyflawni'r rhain yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn serchog â'r cleifion a gyda'i gilydd
- Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel
- Proses gwyno a gaiff ei rheoli'n dda heb fawr ddim cwynion.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd**
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys brechiadau, rheoli pwysau a gwybodaeth i ofalwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol drwy eu grŵp clwstwr.  Roedd y rhain yn cynnwys mynediad i ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl a fferyllwyr, ac yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth gan asiantaethau eraill mewn ffordd amserol.

Mae staff y practis yn gweithio'n agos gyda'u grŵp cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol, mae'r practis yn cadw rhestrau o gleifion y mae'n eu ffonio er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd polisi ‘ni fynychwyd’ ar waith a chadarnhaodd y staff fod unrhyw un sy'n colli dau apwyntiad yn cael llythyr, gan gynnwys unrhyw blant nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau. Nid oedd y polisi'n cynnwys unrhyw wybodaeth am y broses a ddefnyddir pan nad yw pobl yn mynychu eu hapwyntiadau ysbyty.

**Rhaid i'r practis ddiweddau'r polisi ‘ni fynychwyd’ i gynnwys y broses y mae'n rhaid iddo ei ddilyn ar gyfer pobl nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau ysbyty.**

Roedd gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac roedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion agored i niwed a phreswylwyr cartrefi gofal a'r rhai heb ddyfeisiau digidol.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi cael cynnig cyngor ar ffordd o fyw iach. Roedd pob un o'r cleifion yn

cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion i gyd eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

**Gofal urddasol a pharchus**
Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgyngoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd rhai galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd gwydr i wahanu desg y dderbynfa, gan gynnwys ar yr ochrau, a oedd yn cynnig rhyw lefel o breifatrwydd o'r ardal aros.

O ran y cleifion a ymatebodd i'r holiadur ynghylch eu gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed; roedd tri yn cytuno a thri yn anghytuno.

Gwelsom hysbysiadau'n cael eu harddangos yn cynnig gwasanaeth hebryngwr. Roedd y feddygfa'n cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd, ac roedd hyn yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol. O'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn, dywedodd un ei fod wedi cael cynnig hebryngwr a dywedodd un nad oedd wedi cael cynnig un.

## Amserol

**Gofal amserol**
Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Roedd yr apwyntiadau'n cael eu gwneud dros y ffôn gan mwyaf, ond roedd modd trefnu apwyntiadau drwy system ar-lein a wyneb yn wyneb hefyd. Dywedodd holl ymatebwyr yr arolwg wrthym eu bod wedi gwneud eu hapwyntiad wyneb yn wyneb yn y practis.

Dywedwyd wrthym nad yw'r rhan fwyaf o'r apwyntiadau'n cael eu brysbennu. Os bydd claf yn gofyn am gael ei weld, bydd yn cael apwyntiad. Os bydd pob apwyntiad wedi'i gymryd, bydd y staff yn cwblhau ffurflen brysbennu. Bydd y

ffurflen hon yn cael ei hadolygu gan y meddyg ar ddyletswydd ac os bydd angen gweld claf, bydd yn cael cynnig apwyntiad yn y prynhawn. Darperir ar gyfer plant y mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt.
Gwnaethom nodi bod y swyddogion llywio gofal wedi rhoi llwybr da ar waith, gan neilltuo cleifion i'r person neu'r gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y llwybr ar gael i bob aelod o'r staff ar ffurf electronig ac ysgrifenedig. Roedd y swyddogion llywio gofal yn gallu cysylltu â'r meddyg ar alwad a oedd ar gael i roi arweiniad yn ôl yr angen. Nodwyd gennym fod y practis yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth clwstwr.
Roedd prosesau addas ar waith i gefnogi cleifion mewn argyfwng iechyd meddwl, gyda chydberthnasau gwaith da rhwng y practis a'r tîm argyfwng iechyd meddwl cymunedol. Lle y bo'n briodol, cyfeirir cleifion at y tîm iechyd meddwl acíwt, gydag ymyriadau priodol ar waith i unrhyw un sy'n gofyn am gymorth ar ôl 4pm. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela a therapi.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno:

- eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis
- eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan fo angen, dros y ffôn/system trefnu apwyntiadau ar-lein

Dywedodd pump o'r chwe ymatebydd fod eu hapwyntiad ar amser a dywedodd pedwar wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan fydd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys. Dywedodd un claf:

> *"Mae'n ymddangos eu bod yn brin ofnadwy o staff a gall amseroedd yr apwyntiadau fod hyd at 3 wythnos ymlaen llaw sydd yn eithaf anghyfleus"*.

## Teg

**Cyfathrebu ac iaith**
Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai sy'n drwm eu clyw.

Fel arfer, mae cleifion yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion fynediad digidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o staff yn y practis sy'n siarad Cymraeg ac mai prin iawn oedd y cleifion a oedd wedi gofyn am wasanaethau yn

Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r practis mewn cymuned amrywiol, ac roeddent yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu a'r Groes Goch yn fynych i gefnogi cleifion yr oedd angen gwasanaethau mewn iaith wahanol arnynt.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaeth gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Caiff llythyrau a dogfennau eu sganio ar nodiadau cleifion a'u hanfon at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen. O'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y staff gofal iechyd wedi rhoi gwybodaeth i gleifion mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis.

**Hawliau a chydraddoldeb**
Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd pob un o'r cleifion a oedd yn ymateb i'n holiadur o'r farn fod yr adeilad yn hygyrch iawn.

Gwelsom dystiolaeth fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Nododd yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith ac roedd yn cynnwys y cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw absenoldeb staff tymor hir. Ar adeg yr ymweliad, roedd y practis yn defnyddio nyrsys asiantaeth hyd nes iddo gwblhau ei broses recriwtio ar gyfer staff nyrsio parhaol. Roedd y practis yn defnyddio'r un staff asiantaeth, cyn belled ag y bo'n bosibl, er mwyn darparu parhad. Rydym yn argymell y dylai'r cynllun parhad busnes fod ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a manylion cyswllt pe bai argyfwng sy'n effeithio ar y busnes.

**Rhaid rhannu'r cynllun parhad busnes â'r holl staff a sicrhau bod copi ar gael yn ardal y dderbynfa.**

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr i sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Gwelsom fod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu hanfon at y practis yn rheolaidd ac yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac roedd y staff yn gallu dod o hyd iddynt mewn argyfwng.

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi a gwnaethom nodi bod y meddyg ar ddyletswydd yn brysbennu'r holl ymweliadau cyn eu cynnal. Ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal, caiff ffurflen SBAR (sefyllfa, cefndir, asesiad ac argymhelliad) ei chwblhau er mwyn helpu i hwyluso camau gweithredu prydlon.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Nid oedd y polisi oedd ar waith yn benodol i'r practis, ond yn ddogfen gyffredinol. Gwelsom fod polisïau lleol penodol ar gyfer brechiadau Hepatitis B, rheoli feirysau a gludir yn y gwaed, rheoli'r gadwyn oer, rheoli offer miniog, hylendid dwylo, techneg ddigyffwrdd aseptig a dihalogi cyfarpar, ond gwnaethom argymell rhoi polisi atal a rheoli heintiau lleol ar waith a'i fod yn cynnwys arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir.

**Rhaid i'r practis roi polisi atal a rheoli heintiau penodol i'r practis ar waith a sicrhau y caiff arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir ei gynnwys.**

Roedd polisi feirws a gludir yn y gwaed ar waith ond mae angen ei ddiweddaru er mwyn iddo fod yn benodol i'r practis. Cyfeiriodd y polisi hwn hefyd at bolisi anafiadau a achosir gan nodwydd, nad oedd yn bresennol o fewn y gyfres o ddogfennau atal a rheoli heintiau a welsom ar y diwrnod.

**Rhaid i'r practis ddiweddau'r polisi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed, gan sicrhau ei fod yn benodol i'r practis.**

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff polisi anafiadau a achosir gan nodwydd ei roi ar waith a'i fod ar gael gyda'r gyfres o bolisïau atal a rheoli heintiau.**

Nid oedd unrhyw aelodau o staff nyrsio parhaol ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad i ni chyfweld â nhw, gan fod rhai wedi diswyddo'n ddiweddar. Gwnaeth y practis ymdopi â'r mater hwn gan ddefnyddio nyrsys practis asiantaeth i sicrhau y caiff gwasanaethau eu cynnal. Pwysleisiodd cyfathrebiadau ag aelodau staff eraill, y byddai'r staff yn cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau priodol yn barhaus. Roedd y matrics hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant atal a rheoli heintiau fel cwrs gorfodol i'r staff.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Fodd bynnag, gwnaethom argymell diweddaru'r polisi i fod yn benodol i'r practis. Gwnaethom nodi bod y gwastraff yn ddiogel, ac na allai'r cyhoedd fynd ato, ond gwelsom fod modd i ddau dŷ cyfagos fynd i'r gofod hwn. Dywedodd y staff wrthym na chafwyd unrhyw broblemau yn hyn o beth hyd yma, ond nid oedd asesiad risg ffurfiol ar waith i gadarnhau a oedd diogelwch y casgliad gwastraff clinigol yn foddhaol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi ar gyfer rheoli gwastraff, yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i fod yn benodol i'r practis.**

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff diogelwch gwastraff clinigol ei gynnwys mewn asesiad risg ffurfiol.**

Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus.

Gwnaethom nodi y dylid gwella ystafell drin y nyrsys. Gwelsom fod gan yr ystafell deils â growt ac nid oedd tapiau penelin llawn wedi'u ffitio i'r sinciau. Roedd gan y ddau sinc ddraeniau gorlif lle gall bacteria wladychu. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r archwiliadau diweddaraf a welwyd nodi'r meysydd hyn ac maent yn cydnabod nad yw'r sinciau yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar gynllun sinciau mewn ardaloedd clinigol. Dywedwyd wrthym fod gwaith adnewyddu helaeth ar y gweill ar gyfer yr ystafell drin ac rydym yn argymell ystyried y materion hyn ar gyfer y gwaith arfaethedig.

**Dylai'r practis ystyried diweddaru'r sinciau, y tapiau a thynnu'r teils â growt yn y gwaith adnewyddu arfaethedig er mwyn cynnal y safonau atal a rheoli heintiau.**

Rydym yn argymell cynllunio archwiliad atal a rheoli heintiau mwy trwyadl er mwyn mesur yr ystad ffisegol yn erbyn y safonau cydnabyddedig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y byrddau sgertin pren yn yr ystafell drin yn cael eu nodi fel rhai nad ydynt yn cynnal safonau presennol atal a rheoli heintiau. Felly, byddai'n briodol i'r practis ystyried newid y byrddau sgertin pren gyda llawr parhaus di-dor yn ystod gwaith adnewyddu arfaethedig yr ystafell drin.

**Rhaid i'r practis ddiweddaru ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydnabyddedig.**

Gweslom fod carped ar y grisiau a ddefnyddir gan gleifion i fynd i'r ystafelloedd clinigol i fyny'r grisiau. Gwnaethom argymell fod y carped yn cael ei lanhau â stêm yn rheolaidd gan y contractwr glanhau newydd a bod hyn yn cael ei ychwanegu at yr amserlenni glanhau. Yn ogystal, gwelsom fod llenni preifatrwydd clinigol untro yn cael eu defnyddio a'u dyddio. Fodd bynnag, roedd dau bâr o lenni dros 6 mis oed, a gwnaethom argymell newid y rhain bob chwe mis neu'n gynt os oes modd gweld baeddu, marciau neu faw.

**Rhaid i'r practis ddiweddaru'r amserlen lanhau i gynnwys glanhau carpedi â stêm yn rheolaidd a sicrhau bod llenni urddas yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a/neu eu newid o fewn amserlen o 6 mis.**

Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael, a dywedodd y rhai a atebodd y cwestiwn fod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl cael eu trin.

Dywedodd y cleifion hynny a nododd eu bod wedi cael triniaeth fewnwthiol yn y practis, fod y staff wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol yn ystod y driniaeth. Dywedodd un claf fod y cyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol neu wedi'i ddiheintio; roedd un yn ansicr. Dywedodd un claf wrthym fod weips gwrthfacterol yn cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn cynnal triniaeth ac roedd un claf yn anghytuno.

**Rheoli meddyginiaethau**
Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod presgripsiynau yn cael eu cadw'n ddiogel a bod unrhyw badiau presgripsiwn heb eu defnyddio yn cael eu dychwelyd at y bwrdd iechyd i'w gwaredu'n briodol a'u hatal rhag cael eu defnyddio heb awdurdod. Dywedwyd wrthym nad oedd llwybr archwilio ar waith ar gyfer pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau ar gyfer cleifion neu'r fferyllfa. Stopiwyd y broses beth amser yn ôl, a gwnaethom awgrymu bod hyn yn cael ei adolygu i sicrhau y gellir lleihau unrhyw broblemau gyda phresgripsiynau coll neu gamddefnydd posibl.

**Rhaid i'r practis ystyried y risg o beidio â chael llwybr archwilio ar waith ar gyfer pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau o'r feddygfa.**

Roedd y broses i gleifion ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn archebu presgripsiynau drwy'r feddygfa neu drwy ap y GIG. Roedd presgripsiynau yn cael eu prosesu mewn modd amserol gan glercod a oedd wedi cael hyfforddiant addas ac yn cael eu hawdurdodi gan feddyg.

Roedd polisi rhagnodi ar waith ac roedd gan y clercod rhagnodi fynediad i hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol.

Roedd polisi cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau y mae angen eu cadw mewn oergell, ac roedd oergelloedd clinigol yn cael eu defnyddio i'w storio'n briodol. Roedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi.

Gwelsom fod un oergell yn llawn, gyda stoc yn cael ei chadw ar waelod yr oergell. Gallai hyn amharu ar lif yr aer a'r gallu i gynnal tymereddau priodol. Gwnaethom argymell bod y practis yn cysylltu â gwneuthurwr yr oergell i gael arweiniad ar storio stoc yn gywir er mwyn cynnal cylchrediad digonol o aer oer.

**Rhaid i'r practis gysylltu â gwneuthurwr yr oergell i gael arweiniad er mwyn sicrhau bod stoc yn cael ei storio'n briodol a sicrhau llif aer oer priodol.**

Ar adeg yr ymweliad, roedd amser wedi'i glustnodi i nyrs locwm wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys, roedd hyn yn cael ei gofnodi'n briodol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei gwblhau'n wythnosol, ond roedd y cofnod diwethaf wedi'i ddyddio ar 07 Tachwedd 2024. Nid oedd gwaith monitro tymheredd amgylchol ar gyfer y cyffuriau brys a'r meddyginiaethau eraill oedd yn cael eu storio yn yr ystafell drin. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ceisio arweiniad gan y bwrdd iechyd neu eu grŵp clwstwr ar sut i fonitro a chofnodi'r wybodaeth hon.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses ar gyfer gwirio cyffuriau a chyfarpar brys yn cael ei chwblhau bob wythnos a'i chofnodi.**

**Rhaid i'r practis geisio arweiniad, gan y bwrdd iechyd a/neu ei grŵp clwstwr ar sut i fonitro a chofnodi tymereddau amgylchol ar gyfer cyffuriau brys a meddyginiaethau eraill oedd yn cael eu storio yn y practis.**

Roedd yr holl gyfarpar brys angenrheidiol ar waith. Fodd bynnag, gall y practis elwa ar storio rhestr wirio o eitemau gofynnol yn unol â dogfen Quality Standards for Primary Care Cyngor Adfywio'r DU.

**Rhaid i'r practis roi rhestr wirio o gyfarpar a chyffuriau brys gofynnol ar waith.**

Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn, a gwnaethom awgrymu y dylai'r staff ystyried cadw batri wrth gefn.

Gwelsom fod silindrau ocsigen o fewn eu dyddiad defnyddio a bod y lefelau stoc yn briodol a threfniadau ar waith i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Gwnaethom gyfeirio'r staff at rybudd diogelwch diweddar mewn perthynas â gofynion hyfforddi staff ar ddefnyddio ocsigen a sicrhau bod y silindrau i gyd yn cael eu hagor yn gywir.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff pob rhybudd diogelwch ei gylchredeg i bob aelod o'r staff a'i fod yn hygyrch i nyrsys asiantaeth, fel y bo'n briodol. Gan fod y practis yn dibynnu ar nyrsys asiantaeth ar hyn o bryd, rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith i wirio eu bod wedi'u hyfforddi'n addas i weithredu silindrau ocsigen.**

Ni chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu cadw yn y practis.

**Diogelu plant ac oedolion**

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi ar waith sy'n cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd gan y practis arweinwyr diogelu wedi'u henwi a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas. Roedd hyn yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefel ofynnol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.**

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**
Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac wedi'u gwirio'n briodol. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio cyfarpar perthnasol neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**
Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost a'u trafod â nhw a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd prosesau priodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys trafodaethau mewn cyfarfodydd clinigol mewnol ac roedd cofnodlyfrau'n cael eu cadw.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion ac roedd naratif ynddynt o ran pam gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael cefnogaeth a gwybodaeth addas.

Mae'r tîm argyfwng iechyd meddwl lleol a hefyd tîm cyswllt seiciatrig yr ysbyty lleol ar gael i'r practis.

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Gwelsom fod defnydd da a chyson yn cael ei wneud o godau darllen clinigol, sy'n ei gwneud hi'n haws dadansoddi ac archwilio. Roedd cofnodion y cleifion lle roedd clefydau cronig yn cael eu cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o gyflyrau, gan gynnwys holl broblemau'r gorffennol a phroblemau parhaus, yn ogystal â'r feddyginiaeth oedd yn cael ei chymryd.

Gwelsom fod y gofal parhaus yn dda, gyda'r cleifion a chofnodion y cleifion yn cael eu goruchwylio'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos ymgyngoriadau â chleifion o ansawdd da.

Nid oedd dewis iaith y cleifion wedi'i nodi'n amlwg yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt bob amser, ond gwelsom fod cofrestriadau newydd y cleifion yn cofnodi dewis iaith.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.**

## Effeithlon

**Effeithlon**

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio at wasanaethau ffisiotherapi ac iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela drwy'r grŵp clwstwr. Darperir gwasanaethau mân anhwylderau gan fferyllwyr cymunedol a gall y practis atgyfeirio unrhyw ymchwydd mewn cleifion yn ystod cyfnodau prysur at Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Gallai gwasanaethau eraill sydd ar gael i'r cleifion drwy'r feddygfa gynnwys gofal deintyddol brys, atgyfeiriadau ymarfer corff, rhoi'r gorau i smygu, clinig iechyd rhywiol a chymorth i roi'r gorau i alcohol a gamblo.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy Teams a thrwy gyfarfodydd tîm.

Roedd y dull rheoli dogfennau ar y polisïau a welsom yn cynnwys fersiwn, dyddiad adolygu, golygydd, cymeradwywr a sylwadau. Gwelsom fod angen ychwanegu gwybodaeth rheoli fersiwn ar ddau bolisi; sef y cynllun parhad busnes a'r polisi rhagnodi meddyginiaeth reolaidd. Yn ogystal, gwelsom fod y polisi rheoli gwastraff yn cyfeirnodi canllawiau Lloegr, a dylid diweddaru hwn i adlewyrchu canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y cynllun parhad busnes a'r polisïau rhagnodi meddyginiaeth reolaidd yn cael eu diweddaru gyda gwybodaeth rheoli fersiynau.**

**Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru'r polisi rheoli gwastraff i adlewyrchu canllawiau Cymru o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01.**

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn a gwelsom gofnodion y cyfarfod amrywiol a gynhelir. Bydd unrhyw wersi'n cael eu dysgu a'u rhannu gyda'r staff i sicrhau bod y practis yn cadw safonau a gwelliannau gwasanaeth da, lle y bo'n gymwys.

Mae'r practis yn rhan o grŵp clwstwr ac yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd â nhw. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis yn teimlo'n rhwystredig weithiau nad yw'n broses gydweithredol bob amser gyda rhai mentrau clwstwr yn cael eu gosod arnynt.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Er bod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol, nododd y practis nad oedd unrhyw nyrsys parhaol yn cael eu cyflogi. Nid oedd staff nyrsio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod nyrsys asiantaeth rheolaidd ar gael i ddarparu gwasanaethau a chlinigau'r practis.

Dywedwyd wrthym am gynllun y gweithlu a'r broses recriwtio sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i sicrhau y caiff capasiti priodol ei gynnal. Disgrifiodd y staff hefyd y broses ar gyfer recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys caffael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dau eirda a gwirio cofrestriad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol â'i gorff rheoleiddio er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.

Roedd proses sefydlu ar gael i aelodau newydd o'r staff ac roedd polisi recriwtio ar waith. Roedd yn cynnwys yr hyn a ddywedwyd wrthym.

Dangosodd adolygiad o gofnodion pump aelod o staff fod rhywfaint o wybodaeth ar goll o'u ffeiliau. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contractau cyflogaeth a sgrinio am Hepatitis B. Nid oedd unrhyw system ar waith i wirio bod rhywun yn parhau i fod yn addas i weithio i'r practis ar ôl iddynt gael eu gwiriad cychwynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Felly, rydym yn argymell bod hyn yn cael ei gynnal fel rhan o'u trafodaethau arfarnu blynyddol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyflogaeth yn cael ei chasglu a'i chadw ar ffeil pob aelod o'r staff.**

**Rhaid i'r practis roi proses ar waith i wirio bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis mewn perthynas â'u statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

Roedd rhai aelodau o'r staff yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau ar hyfforddiant gorfodol. fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion a dadebru. Dywedwyd wrthym fod cyrsiau hyfforddiant yn cael eu trefnu ac rydym yn argymell bod y rhain yn cael eu trefnu'n ddi-oed, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl ac yn darparu tystiolaeth i AGIC pan fydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.**

Roedd matrics hyfforddiant ar waith ac roedd yn cofnodi'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff gweinyddol, ond nid oedd hyn ar waith ar gyfer y staff clinigol. Gwnaethom argymell diweddaru'r matrics hyfforddiant er mwyn cynnwys pob aelod o'r staff clinigol. Bydd hyn yn galluogi'r practis i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

**Rhaid i'r practis ddiweddaru'r matrics hyfforddiant gyda'r holl staff clinigol a sicrhau y caiff ei fonitro yn rheolaidd i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau i fod yn gyfredol.**

Gwelsom fod arfarniadau wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff gweinyddol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod sesiynau goruchwylio clinigol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer staff clinigol. Mae arfarniadau blynyddol yn orfodol ar gyfer meddygon teulu yn y DU, ac ar gyfer nyrsys fel rhan o'u proses ail-ddilysu.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio clinigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol, a bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi.**

Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Cwblhaodd dau aelod o'r staff holiadur, a nododd y ddau eu bod yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd teg a chyfartal yn y gweithle. Roeddent hefyd yn teimlo bod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd systemau TGCh priodol ar gael i'r staff i'w helpu i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion. Roedd yr aelodau o'r staff a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis, bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, a'u bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Roedd hefyd yn teimlo bod yr holl ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar perthnasol ar gael i'w alluogi i wneud ei waith.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
O blith y 6 claf a ymatebodd i'n harolwg, cadarnhaodd un fod y practis wedi gofyn iddynt am eu profiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd 4 o'r 6 claf yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth ac roeddent i gyd yn cytuno eu bod wedi cael gwasanaeth 'da iawn' neu 'da'.

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno a pholisi cwyno i gleifion a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Roedd poster yn cael ei arddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos y ffyrdd y gall cleifion roi adborth. Dywedwyd wrthym fod un ffurflen wedi dod i law hyd yma a byddai unrhyw adborth a oedd yn cael ei gasglu gan y practis yn cael ei ddefnyddio i hysbysu unrhyw welliant i'r gwasanaeth.

Teimlai'r staff y gallent siarad â rheolwr y practis am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt â rheolwr y practis i'w hystyried.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith, ac roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar hyn. Roedd y staff a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn eu hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno eu bod yn deall eu rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**
Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd tystiolaeth o rywfaint o archwilio clinigol a mewnol er mwyn monitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod yr holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau.

## Dull systemau cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**
Darparodd y practis enghreifftiau o'r effaith y mae'n ei chael, fel rhanddeiliad yng ngofal cleifion, ar rannau eraill o'r system gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol amrywiol, fel cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practisau.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da ar waith â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystysgrif hyfforddiant diogelu lefel 3 ar gyfer y dirprwy arweinydd diogelu yn y practis. | Ni fu modd i ni gadarnhau a oedd gan y dirprwy arweinydd diogelu sgiliau a gwybodaeth gyfredol yn y maes hwn i sicrhau ei fod yn barod i ymateb i unrhyw risgiau a heriau oedd yn dod i'r amlwg. | Cafodd y pryder hwn ei godi gyda rheolwr y practis. | Darparwyd tystiolaeth o'r dystysgrif hyfforddiant priodol. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Meddygfa Cathays

## Dyddiad yr arolygiad:2 Rhagfyr 2024

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |
| 2. | | | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Meddygfa Cathays

## Dyddiad yr arolygiad:2 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Nid oedd y polisi 'ni fynychwyd' yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y broses a ddefnyddir pan nad yw pobl yn mynd i'w hapwyntiadau ysbyty. | **Rhaid i'r practis ddiweddau'r polisi 'ni fynychwyd' i gynnwys y broses y mae'n rhaid iddo ei ddilyn ar gyfer pobl nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau ysbyty.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Nodwyd hyn yn y polisi Diogelu, rydym wedi diweddaru'r rhan "ni fynychwyd" yn y polisi erbyn hyn. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **2.** | Roedd cynllun parhad busnes ar waith ac roedd yn cynnwys y cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw absenoldeb staff | **Rhaid rhannu'r cynllun parhad busnes â'r holl staff a sicrhau bod copi ar gael yn ardal y dderbynfa.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae'r Cynllun Parhad Busnes bellach wedi'i rannu'n electronig â phob aelod o'r staff ac | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | tymor hir. Ar adeg yr ymweliad, roedd y practis yn defnyddio nyrsys asiantaeth hyd nes iddo gwblhau ei broses recriwtio ar gyfer staff nyrsio parhaol. Roedd y practis yn defnyddio'r un staff asiantaeth, cyn belled ag y bo'n bosibl, er mwyn darparu parhad. Rydym yn argymell y dylai'r cynllun parhad busnes fod ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a manylion cyswllt pe bai argyfwng neu sefyllfa frys sy'n effeithio ar y busnes. | | | mae copi papur yn ffolder y dderbynfa. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Nid oedd y polisi a welsom yn benodol i'r practis, ond dogfen gyffredinol ydoedd. | **Rhaid i'r practis roi polisi atal a rheoli heintiau penodol i'r practis ar waith a sicrhau y caiff arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir ei gynnwys.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae polisi atal a rheoli heintiau newydd penodol i'r practis gydag arweinydd atal a rheoli heintiau wedi'i enwi wedi'i roi ar waith. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| 4. | Roedd polisi feirws a gludir yn y gwaed ar waith ond mae angen ei ddiweddaru er mwyn iddo fod yn benodol i'r practis. | **Rhaid i'r practis ddiweddau'r polisi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed, gan sicrhau ei fod yn benodol i'r practis.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae polisi feirws a gludir yn y gwaed yn rhan o'r polisi atal a rheoli heintiau newydd | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| 5. | Roedd y polisi feirws a gludir yn y gwaed yn cyfeirio at bolisi anaf a achosir gan nodwydd, nad oedd i'w weld yn bresennol gyda'r gyfres o ddogfennau atal a rheoli heintiau a welsom ar y diwrnod. | **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff polisi anafiadau a achosir gan nodwydd ei roi ar waith a'i fod ar gael gyda'r gyfres o bolisïau atal a rheoli heintiau.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae'r polisi anaf a achosir gan nodwydd yn rhan o'r polisi atal a rheoli heintiau newydd. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.** | Mae angen diweddaru'r polisi rheoli gwastraff i fod yn benodol i'r practis. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi ar gyfer rheoli gwastraff, yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i fod yn benodol i'r practis.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae polisi rheoli gwastraff newydd wedi cael ei roi ar waith. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **7.** | Gwnaethom nodi bod y gwastraff yn ddiogel, ac na allai'r cyhoedd fynd ato, ond gwelsom fod modd i ddau dŷ cyfagos fynd i'r gofod hwn. Dywedodd y staff wrthym na chafwyd unrhyw broblemau yn hyn o beth hyd yma, ond nid oedd asesiad risg ffurfiol ar waith i gadarnhau a oedd diogelwch y casgliad gwastraff clinigol yn foddhaol. | **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff diogelwch gwastraff clinigol ei gynnwys mewn asesiad risg ffurfiol.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Mae asesiad risg wedi'i gynnal ac wedi canfod gan fod y biniau gwastraff clinigol wedi'u cloi bob amser, mai isel yw'r risg. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | Dywedwyd wrthym fod gwaith adnewyddu helaeth ar y gweill ar gyfer yr ystafell drin ac rydym yn argymell ystyried y materion hyn ar gyfer y gwaith arfaethedig. | **Dylai'r practis ystyried diweddaru'r sinciau, y tapiau a thynnu'r teils â growt yn y gwaith adnewyddu arfaethedig er mwyn cynnal y safonau atal a rheoli heintiau.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel | Mae gwelliannau i'r feddygfa wedi dechrau gyda chynllun i adnewyddu'r ystafell drin ond mae ar stop ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa ariannol. Os/pryd bydd hyn yn gwella, byddwn yn adnewyddu. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | 2/3 blynedd yn dibynnu ar y sefyllfa ariannol |
| **9.** | Rydym yn argymell cynllunio archwiliad atal a rheoli heintiau mwy trwyadl er mwyn mesur yr ystâd ffisegol yn erbyn y safonau cydnabyddedig. Byddai hyn yn sicrhau bod y byrddau sgertin pren yn yr ystafell drin yn cael eu nodi fel rhai nad ydynt yn cynnal safonau presennol atal a rheoli heintiau. | **Rhaid i'r practis ddiweddaru ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydnabyddedig.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Bydd ein nyrs practis newydd ei phenodi yn diweddaru'r archwiliad atal a rheoli heintiau | Sarah Baker<br><br>Nyrs y Practis | 3 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **10.** | Gwnaethom argymell fod y carped yn cael ei lanhau â stêm yn rheolaidd gan y contractwr glanhau newydd a bod hyn yn cael ei ychwanegu at yr amserlenni glanhau.<br><br>Yn ogystal, gwelsom fod llenni preifatrwydd clinigol untro yn cael eu defnyddio a'u dyddio. Fodd bynnag, roedd dau bâr o lenni dros 6 mis oed, a gwnaethom argymell newid y rhain bob chwe mis neu'n gynt os oes modd gweld baeddu, marciau neu faw. | **Rhaid i'r practis ddiweddaru'r amserlen lanhau i gynnwys glanhau carpedi â stêm yn rheolaidd a sicrhau bod llenni urddas yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a/neu eu newid o fewn amserlen o 6 mis.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Yn aros am gadarnhad gan gwmni glanhau ynghylch a ydynt yn glanhau â stêm. Os nad ydynt, byddwn yn chwilio am gwmni arall. Yn y dyfodol, byddwn yn edrych i'w newid gyda llawr diogelwch neu rywbeth tebyg. Mae'r llenni bellach wedi'u newid | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | 3 mis |
| **11.** | Dywedwyd wrthym nad oedd llwybr archwilio ar waith ar gyfer pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau | **Rhaid i'r practis ystyried y risg o beidio â chael llwybr archwilio ar waith ar gyfer pryd a phwy sy'n casglu** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Pan fydd claf yn casglu, byddwn yn gofyn am Enw, Dyddiad Geni a chyferiad er mwyn | Nicola Short<br><br>Rheolwr y practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ar gyfer cleifion neu'r fferyllfa. Stopiwyd y broses beth amser yn ôl, a gwnaethom awgrymu bod hyn yn cael ei adolygu i sicrhau y gellir dileu unrhyw broblemau gyda phresgripsiynau coll neu gamddefnydd posibl. | **presgripsiynau o'r feddygfa.** | | rhyddhau'r presgripsiwn. Mae cofnodion y cleifion yn nodi pa fferyllfa maent wedi cytuno iddynt gasglu presgripsiynau ar eu rhan. | | |
| **12.** | Gwelsom fod un oergell yn llawn, gyda stoc yn cael ei chadw ar waelod yr oergell. Gallai hyn amharu ar lif yr aer a'r gallu i gynnal tymereddau priodol. Rydym yn argymell bod y practis yn cysylltu â gwneuthurwr yr oergell i gael y manylion storio cywir er mwyn cynnal | **Rhaid i'r practis gysylltu â gwneuthurwr yr oergell i gael arweiniad er mwyn sicrhau bod stoc yn cael ei storio'n briodol a sicrhau llif aer oer priodol.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal – Gwybodaeth; Diogel | Mae'r stoc bellach wedi'i rhannu rhwng y 2 oergell yn yr ystafell drin. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cylchrediad digonol o aer. | | | | | |
| **13.** | Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cofnodi'n briodol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei gwblhau'n wythnosol, ond roedd y cofnod diwethaf wedi'i ddyddio ar 07 Tachwedd 2024. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses ar gyfer gwirio cyffuriau a chyfarpar brys yn cael ei chwblhau bob wythnos a'i chofnodi.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Mae gennym nyrs practis newydd wrth ei gwaith ac mae'n gwirio ac yn cofnodi'n wythnosol. | Sarah Baker<br><br>Nyrs Practis | Wedi'i gwblhau |
| **14.** | Nid oedd gwaith monitro tymheredd amgylchol ar gyfer y cyffuriau brys a'r meddyginiaethau eraill oedd yn cael eu storio yn yr ystafell drin. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ceisio arweiniad gan y bwrdd iechyd neu eu | **Rhaid i'r practis geisio arweiniad, gan y bwrdd iechyd a/neu ei grŵp clwstwr ar sut i fonitro a chofnodi tymereddau amgylchol ar gyfer cyffuriau brys a meddyginiaethau eraill oedd yn cael eu storio yn y practis.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Aros am arweiniad ar y ffordd orau o hwyluso hyn. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | 2 fis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | grŵp clwstwr ar sut i fonitro a chofnodi'r wybodaeth hon. | | | | | |
| **15.** | Nid oedd rhestr wedi'i llunio o gynnwys y bag adfywio a dylid rhestru eitemau a argymhellir yn unigol. | **Rhaid i'r practis roi rhestr wirio o gyfarpar a chyffuriau brys gofynnol ar waith.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel | Mae rhestr yn y bag adfywio erbyn hyn | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **16.** | Gwnaethom gyfeirio'r staff at rybudd diogelwch diweddar mewn perthynas â gofynion hyfforddi staff ar ddefnyddio ocsigen a sicrhau bod y silindrau i gyd yn cael eu hagor yn gywir. | **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff pob rhybudd diogelwch ei gylchredeg i bob aelod o'r staff a'i fod yn hygyrch i nyrsys asiantaeth, fel y bo'n briodol. Gan fod y practis yn dibynnu ar nyrsys asiantaeth ar hyn o bryd, rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith i wirio eu bod wedi'u hyfforddi'n addas i weithredu silindrau ocsigen.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu | Bydd yr holl staff yn cael hyfforddiant am silindrau ocsigen | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | 2 fis |
| **17.** | Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod pob | **Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - | Bydd meddygon teulu a nyrs y practis yn | Nicola Short | 2 fis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefel ofynnol. | **o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.** | Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu | cwblhau hyfforddiant priodol | Rheolwr y Practis | |
| **18.** | Nid oedd dewis iaith y cleifion wedi'i nodi'n amlwg yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt bob amser, ond gwelsom fod cofrestriadau newydd y cleifion yn cofnodi dewis iaith. | Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol. | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae dewis iaith yn rhan o'r holiaduron newydd i gleifion (sy'n cynnwys cofrestriadau myfyrwyr) ac mae'n cael ei gofnodi ar gyfer pob cofrestriad newydd. | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **19.** | Gwelsom fod angen ychwanegu gwybodaeth rheoli fersiwn ar ddau bolisi; sef y cynllun parhad busnes a'r polisi rhagnodi meddyginiaeth reolaidd. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod y cynllun parhad busnes a'r polisïau rhagnodi meddyginiaeth reolaidd yn cael eu diweddaru gyda gwybodaeth rheoli fersiynau.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae'r ddau bolisi bellach wedi'u diweddaru gyda gwybodaeth rheoli fersiynau | Nicola Short<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **20.** | Roedd y polisi rheoli gwastraff yn cyfeirnodi canllawiau Lloegr, a dylid diweddaru hwn i adlewyrchu canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01. | **Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru'r polisi rheoli gwastraff i adlewyrchu canllawiau Cymru o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth | Mae polisi rheoli gwastraff newydd wedi cael ei roi ar waith. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **21.** | Dangosodd adolygiad o gofnodion pump aelod o staff fod rhywfaint o wybodaeth ar goll o'u ffeiliau. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contractau cyflogaeth a sgrinio am Hepatitis B. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyflogaeth yn cael ei chasglu a'i chadw ar ffeil pob aelod o'r staff.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu | Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i storio yng nghofnodion staff yr holl ddechreuwyr newydd. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **22.** | Nid oedd unrhyw system ar waith i wirio bod rhywun yn parhau i fod yn addas i | **Rhaid i'r practis roi proses ar waith i wirio bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis mewn** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu | Rydym wedi rhoi hunanddatganiadau blynyddol ar gyfer staff clinigol ar waith. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | weithio i'r practis ar ôl iddynt gael eu gwiriad cychwynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | **perthynas â'u statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.** | | | | |
| | Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod sawl enghraifft o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion ac adfywio. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl ac yn darparu tystiolaeth i AGIC pan fydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu | Mae hyfforddiant adfywio wedi'i drefnu i'r practis cyfan ar 4/3/25. Bydd y staff clinigol yn cwblhau hyfforddiant Diogelu perthnasol. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | 2 fis |
| **23.** | Roedd matrics hyfforddiant ar waith ac roedd yn cofnodi'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff gweinyddol, ond nid oedd hyn ar waith ar gyfer y staff clinigol. | **Rhaid i'r practis ddiweddaru'r matrics hyfforddiant gyda'r holl staff clinigol a sicrhau y caiff ei fonitro yn rheolaidd i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau i fod yn gyfredol.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu | Mae'r matrics hyfforddiant wedi'i gopïo i'r staff clinigol. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **24.** | Gwelsom fod arfarniadau wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff gweinyddol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod sesiynau goruchwylio clinigol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer staff clinigol. | **Rhaid i'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio clinigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol, a bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi.** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal – Y Gweithlu | Rydym wedi rhoi hunanddatganiad ar gyfer arfarniadau blynyddol meddygon teulu ar waith gan eu bod yn cael eu cynnal yn allanol a byddant yn cadw cofnod ar ffeiliau. | Nicola Short<br>Rheolwr y Practis | 1 mis |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Nicola Short**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 22/01/2025**